**Barry Davies LL.B (Hons)**
**Solicitor/Cyfreithiwr**
*Head of Legal and Democratic Services*
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

To: Cynghorwyr: Nancy Matthews, Graham Rees, Michael Priestly, Eryl Williams, Julian Thompson-Hill, Arwell Pierce, W. G. Roberts, R. G. Parry and Thomas H. Jones

CS/NG

10 Medi 2009

Nicola Gittins

01352 702336

nicola.gittins@flintshire.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Cynhelir cyfarfod **PARTNERIAETH TRIN GWASTRAFF GOGLEDD CYMRU yn SIAMBR ARFON, SWYDDFA ARDAL ARFON, PENRALLT, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 1BN** ar **DYDD IAU, 17 MEDI 2009** am **2.00pm** i drafod y materion canlynol.

Yr eiddoch yn gywir

Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Gwasanaethau Democrataidd)

## A G E N D A

1. **YMDDIHEURIADAU**

2. **CYMERADWYO'R COFNODION BLAENOROL**

3. **MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL**

4. **RIR – DIWEDDARIAD STATWS RISG - (ADRODDIAD SP)**

County Hall, Mold. CH7 6NA
Tel. 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NR
Ffôn 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.siryfflint.gov.uk
The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cyngor yn croesawau gohebiaeth yn y Cymraeg neu'r Saesneg

5. **STRWYTHUR DRAFFT AR GYFER Y STRATEGAETH CYFATHREBU (ADRODDIAD SP)**

6. **PENODIADAU TÎM PROSIECT (CE)**

7. **ADRODDIAD CYNNYDD (ADRODDIAD SP)**

8. **ACHOS BUSNES AMLINELLOL / CYTUNDEB GWEITHIO AR Y CYD – CEFNOGAETH SYDD AR GAEL PARTHED Y PROSESAU CYMERADWYO AR GYFER AWDURDODAU PARTNER. (ADRODDIAD SP)**

9. **PAPUR GOSOD SEFYLLFFA ACHOS BUSNES AMLINELLOL**

10. **DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL (AMSERLEN)**

11. **UNRHYW FUSNES ARALL**


Morrisons
North Rd
St David's Rd
Balaclafa
Balaclava Rd
A487
Stryd Bangor
B4419
A487
Balaclafa
Rhes Priordy
Lon Twthill
Dwyrain Twthill
Heol Elinor
Twthill E
Heol Edward
Glan Mor Ucha
B4419
Gwynedd Council Arfon Area Offices
Bangor St
Victoria St
Multi storey car park

**EITEM AGENDA RHIF: 4**

**ADRODDIAD I:** **CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**

**DYDDIAD:** **17 MEDI 2009**

**ADRODDIAD GAN:** **CYFARWYDDWR PROSIECT**

**PWNC:** **ADRODDIAD COFRESTR RISG**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae aelodau Cyd-Bwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru wedi gofyn am gael yr wybodaeht ddiweddaraf o'r gofrestr risg ym mhob cyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor.

1.2. Bydd yr adroddiad yma'n amlygu rhai o'r diwygiadau a wnaed i'r gofrestr risg i adlewyrchu’r ddealltwriaeth gyfredol o risgiau a'r mesurau lliniaru sydd ar waith.

## 2. CEFNDIR

2.1. Bydd angen diweddaru'r Gofrestr Risg yn gyson trwy gydol hyd oes y prosiect fel trafodwyd yng nghyfarfod blaneorol y Cyd-Bwyllgor yma.

2.2. Mae'r Cyfarwyddwr Prosiect wedi cynnal adolygiad o'r gofrestr risg ac mae wedi'i diweddaru fel sy'n briodol.

## 3. YSTYRIAETHAU

Diweddarwyd y gofrestr risg fel nodir yn yr atodiad amgaeedig.

| Risg presennol | **Diwygiad** | **Rhsewm dros y diwygiad** |
|---|---|---|
| Risg T2 | Wedi'i ailenwi fel PS 4 | Elfen benodol ar gyfer Safleoedd a Chynllunio Penodol o'r gofrestr risg bellach wedi eu datblygu |
| Risg S9 | Wedi'i ailenwi fel PS 1 | Fel uchod |
| | Risg newydd – PS2 | Gallai safleoedd cyfeiriol a nodwyd o fewn yr Achos Busnes Amlinellol arwain at wrthwynebiad sylweddol i ddatblygiad arfaethedig. O ganlyniad efallai na fydd pwyllgor(au) cynllunio a / neu adolygiad barnwrol yn cefnogi canlyniad cynllunio cadarnhaol os na chaiff cymunedau sy'n cael eu heffeithio eu cynnwys yn fuan yn y broses. |
| | Risg newydd – PS3 | Risg y bydd cymeradwyaeth cynllunio yn cael ei herio os na roddir cyfle i randdeiliaid |

| | | |
|---|---|---|
| | | gael mewnbwn i ddatblygu manylebau a fframweithiau arfarnu a fydd yn sylfaen i'r broses gaffael a'r broses ddilynol o gymeradwyo cynllunio cyfleusterau. |
| | Risg Newydd -R7 | Risg y bydd LlCC yn newid cefnogaeth ariannol sydd ar gael i brosiectau trin gwastraff gweddilliol oherwydd rhwystrau ariannol yn yr awyrgylch economeg presennol. |
| | Risg Newydd - T8 | Risg y bydd amserlen yr Achos Busnes Amlinellol yn cael ei ohurio os nad yw gwybodaeth yn nhermau tunelli a perfformiad ailgylchu yn y dyfodol (ochr blaen) a costau gwasanaeth ddim ar gael yn llawn. |

3.1. Dylid nodi y bydd y tîm prosiect ynghyd â'r ymgynghorwyr cyfreithiol, technegol ac ariannol yn cynnal adolygiad sylfaenol o'r risgiau a'r gofrestr risg yn ystod datblygiad yr Achos busnes Amlinellol.

**4. ARGYMHELLION**

4.1. Dylai'r Cyd-Bwyllgor nodi'r diweddariad o'r gofrestr risg ar gyfer y prosiect.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Ddim yn berthnasol

**6. EFFAITH GWRTH DLODI**

6.1. Dim

**7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL**

7.1. Ddim yn berthnasol

**8. EFFAITH CYDRADDOLDEB**

8.1. Ddim yn berthnasol

**9. 9. GOBLYGIADAU PERSONÉL**

9.1. Ddim yn berthnasol

**10. YMGYNGHORI ANGENRHEIDIOL**

10.1. Ddim yn berthnasol

## 11. YMGYNGHORI A GYNHALIWYD

11.1. Ddim yn berthnasol

## DEDDF LLYWODRAETH LEOL MYNEDIAD AT WYBODAETH 1985

**Dogfennau Cefndir:** Dim
**Swyddog Cyswllt:** Stephen Penny, Partneriaeth Rheoli Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru
**E-Bost** : Stephen.penny@flintshire.gov.uk

## EITEM AGENDA RHIF 5

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLED CYMRU** |
| **DYDDIAD :** | **17 MEDI 2009** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CYFARWYDDWR PROSIECT** |
| **PWNC:** | **STRATEGAETH CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU** |

## 1.00 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.01 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cyd-Bwyllgor ar y cynnydd a waned o ran datblygu'r prif strwythur a chynnwys Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer y prosiect.

## 2.00 CEFNDIR

2.01 Bydd y prosiect yn cynnwys caffael gwasanaethau trin gwastraff gweddilliol a fydd o ddiddordeb i randdeiliaid allanol a mewnol yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd. Mae'n hanfodol i ganlyniad llwyddiannus i'r prosiect bod Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn cael ei datblygu a'i chyflenwi i gefnogi'r prosiect.

2.02 Mae nifer o risgiau allweddol wrth gyflenwi'r prosiect yn ymwneud â dealltwriaeth rhanddeiliaid allweddol o'r prosiect a rheoli cyfathrebu ac ymgysylltu (gweler Cofrestr Risg y Prosiect yn eitem Agenda 4) ac felly bydd angen Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu gadarn i reoli'r risgiau hyn.

## 3.00 YSTYRIAETHAU

3.01 Yn ei ffurf bresennol mae'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu drafft sydd ynghlwm yn y brif strategaeth a gaiff ei datblygu ymhellach dros yr wythnosau a misoedd nesaf y prosiect. Bydd y Rheolwr Prosiect yn gweithio gyda'r tîm prosiect ac awdurdodau partner ynghyd â'r Cynllun Craff am Wastraff (Ymgyrch genedlaethol i sicrhau bod safonau cyfathrebu uchel mewn prosiectau gwastraff yn cael eu cyflawni) i ddatblygu'r strategaeth ymhellach.

3.02 Mae'r prosiect wthi'n gweithio ar Achos Busnes Amlinellol ers Awst 2009. Felly ar y pwynt yma bydd angen ymdrin â nifer o feysydd o fewn y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

Y meysydd allweddol y bydd angen ffocysu arnynt yw:

- Cymeradwyaeth fewnol - briffio allweddol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a rhanddeiliaid mewnol.

- Mae cyfathrebu ac ymgysylltu cynnar gyda chymunedau a busnesau lleol a fydd o bosib yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y safleoedd cyfeiriol a gaiff eu henwi mewn Achos Busnes Amlinellol. (Bydd yr Achos Busnes Amlinellol yn dod yn eiddo i'r cyhoedd ac mae'n bwysig bod cyfathrebu ac ymgysylltu wedi cychwyn yn fuan)
- Paratoi Cwestiynau ac Atebion wrth ragweld diddordeb gan y cyfryngau a rhanddeiliaid yn ystod / ar ôl cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol.
- Galluogi mewnbwn rhanddeiliaid i ddatblygu elfennau caffael allweddol y gellir eu cyflawni (e.e. manyleb allbwn a fframweithiau arfarnu caffael) a thrwy hynny lleihau'r risg y gellir herio unrhyw broses cymeradwyo cynllunio dilynol yn llwyddiannus.
- Paratoi hunaniaeth “Partneriaeth” i gefnogi'r broses gaffael arfaethedig (ee gwefan a fydd yn mynd yn fyw yn union cyn cychwyn y broses gaffael).

Bydd y Rheolwr Prosiect yn gweithio gyda phob awdurdod partner ac ymgynghorwyr technegol i'r prosiect yn y lle cyntaf i ddatblygu ymhellach y gweithgareddau i gyflenwi'r strategaeth. Bydd y tîm prosiect yn ystyried sicrhau cyngor cyfathrebu / cysylltiadau cyhoeddus arbenigol unwaith y mae'r blaenoriaethau cyffredinol y strategaeth wedi'u llunio'n derfynol.

**<u>ARGYMHELLION</u>**

4.01 Nodi'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu drafft sydd ynghlwm.

4.02 Cytuno ar feysydd ar gyfer ffocws cychwynnol fel disgrifir o fewn yr adroddiad yma.

**5.00 <u>GOBLYGIADAU ARIANNOL</u>**

5.01 Mae'r Cyfarwyddwr Prosiect wedi dyrannu cyllideb cyfathrebu ac ymgysylltu rhanddeiliaid o £100k ar gyfer 2009/10, £100k ar gyfer 2010/11 a £120k ar gyfer 2011/12 o fewn cyfanswm cyllideb a ddyrannwyd i'r prosiect (gweler Eitem Agenda 7 Adroddiad ar Gynnydd y Prosiect). Dylid nodi bod y ffigyrau uchod yn cynnwys ymgysylltu gyda’r cymuned a gwaith ymgynghori sydd yn gysylltiedig â unrhyw geisiadau cynllunio yn ogystal â cyfathrebu, a wedi’i osod ar sail profiad o anghenion proseictau tebyg yn y gorffennol.

**6.00 <u>EFFAITH GWRTH DLODI</u>**

6.01 Dim

**7.00 <u>EFFAITH AMGYLCHEDDOL</u>**

7.01 Dim

**8.00 <u>EFFAITH CYDRADDOLDEB</u>**

8.01 Dim

**9.00 <u>GOBLYGIADAU PERSONÉL</u>**

9.01 Dim

**10.00 YMGYNGHORI ANGENRHEIDIOL**

10.01 Dim

**11.00 YMGYNGHORI A GYNHALIWYD**

11.01 Dim

**12.00 ATODIADAU**

12.01 Dim

**DOGFENNAU CEFNDIR**
**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985**

Swyddog Cyswllt : Stephen Penny
Ffôn : (01352) 704914
E-Bost : Stephen.penny@flintshire.gov.uk

**EITEM AGENDA RHIF 7**

**ADRODDIAD AR GYNNYDD PROSIECT TRIN GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**

**CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**

**Dyddiad : 17 Medi 2009**

**Cyfnod: – 1 Gorffennaf 2009 tan 20 Tachwedd 2009**

**CRYNODEB O'R PROSIECT**

Caffael ateb rheoli gwastraff cynaliadwy ar gyfer y 5 awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn) a fydd yn cynorthwyo gyda gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr o dirlenwi a lleihau'r tunelledd gwastraff geddilliol a anfonir i dirlenwi gan a sicrhau bod yr awdurdodau yn osgoi cosbau methu cyflawni'r Cynllun Lwfans Tirlenwi ac yn cwrdd â thargedau'r Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol.

**STATWS Y PROSIECT**

| **Statws** | **Ystyr** |
|---|---|
| Gwyrdd | Nid oes yno unrhyw broblemau; mae popeth yn symud ymlaen yn dda ac yn unol â'r cynllun. |
| Ambr | Mae yno fân broblemau/problemau llai sylweddol. Mae angen gweithredu mewn rhai meysydd ond mae rhannau eraill yn symud ymlaen yn foddhaol. |
| Coch | Mae yno broblemau sylweddol ac mae angen gweithredu brys a phendant. |

| **Statws Cyffredinol y Prosiect** | |
|---|---|
| Gwyrdd | Bydd y Rheolwr Prosiect Steffan Owen yn ymuno â'r tîm ar 3 Awst 2009. Bellach mae'r tîm ymgynghorwyr allanol yn eu lle. Bwriedir cynnal cyfarfod cychwyn y prosiect ar 20 Awst 2009 gyda gwaith ar yr Achos Busnes Amlinellol i gychwyn yn dilyn y cyfarfod yma. |

| Statws cyllideb | |
|---|---|
| Gwyrdd | Cyfanswm y gwariant yn 2008/09 oedd £79k.<br>Mae'r Cyfarwyddwr Prosiect wedi cyflwyno dyraniad Cronfa Mynediad i Gyfalaf Rhanbarthol wedi'i ailborffilio i LICC ar 22 Gorffennaf 2009. Rhoddwyd caniatâd llafar yn y cyfarfod, disgwyl cadarnhad ysgrifenedig gan LICC.<br>Cyllideb wedi'i ailbroffilio erbyn hyn wedi'i gynhyrchu gan y |

| | |
|---|---|
| | Cyfarwyddwr Prosiect – (gweler y papur ynghlwm i'r adroddiad yma). Ar y Cam yma bydd cadarnhad bod amcangyfrifon cyllideb fel ag y maent o fewn y PID a gymeradwywyd yn ddigon i gyflenwi'r prosiect. |

**Y DIWEDDARAF AR Y PROSIECT** – Gweithgareddau i'w cwblhau rhwng 1 Gorffennaf ac 1 Awst 2009

| ID | Gweithgaredd | Statws RAG | Sylwadau | Rhagolygon |
|---|---|---|---|---|
| | Penodi Rheolwr Prosiect | Gwyrdd | Steffan Owen wedi ymuno â'r prosiect ar 3 Awst 2009 | 03 Awst 2009 |
| | Penodi ymgynghorwyr cyfreithiol | Gwyrdd | Archebion swyddogol yn cael eu codi. | 30 Gorffennaf 2009 |
| | Penodi ymgynghorwyr ariannol | Gwyrdd | Archebion swyddogol yn cael eu codi. | 30 Gorffennaf 2009 |
| | Penodi ymgynghorwyr technegol | Gwyrdd | Archebion swyddogol yn cael eu codi. | 30 Gorffennaf 2009 |
| | Trefnu'r cyfarfod Cychwyn Prosiect | Gwyrdd | Trefnwyd ar gyfer 20 Awst 2009 | 27 Gorffennaf 2009 |
| | Amcangyfrif o fewnbwn adnodd swyddog awdurdod partner i'r prosiect | Gwyrdd | PD wedi cynhrchu drafft cyntaf a'i gylchredeg i awdurdodau partner ar 30 Gorffennaf 2009 | 30 Gorffennaf 2009 |
| | Cyfarfod Cychwyn Prosiect | Gwyrdd | Agweddau allweddol o ddatblygiad yr Achos Busnes Amlinellol wedi ei amlygu. Anghenion gwybodaeth technegol a ariannol gan awdurdodau partner wedi ei adnabod. | 20 Awst 2009 |

**Y DIWEDDARAF AR Y PROSIECT** – Gweithgareddau i'w cwblhau rhwng 1 Gorffennaf ac 1 Awst 2009

| ID | Gweithgaredd | Statws RAG | Sylwadau | Rhagolygon |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfarfydd yn ystod Mis Medi rhwng Grant Thornton a Swyddogion Ariannol gyda chymorth gan swyddogion technegol. | Gwyrdd | Er mwyn adnabod gwybodaeth cyllidebol a thechnegol angenrheidiol i roi cymorth i ddatblygiad yr Achos Busnes Amlinellol. | 11 Medi 2009 |
| | Cysylltu â pob awdurdod partner i gadarnhau amserlen cymeradwyaeth Achos Busnes Amlinellol a'r Cytundeb Gweithio ar y Cyd. | Gwyrdd | | 4 Medi 2009 |
| | Diweddaru'r Cynllun Prosiect i adlewyrchu amserlen cymeradwyiaeth yr Achos Busnes Amlinellol a'r Cytundeb Gweithio ar y Cyd a rhannu gyda LICC | Gwyrdd | Amserlen cymeradwyiaeth yn ffactor hanfodol bwysig i orffen yr Achos Busnes Amlinellol. Fersiwn wedi'i diweddaru i'w rannu gyda LICC i gadarnhau dyddiad cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol ac amserlen y prosiect | 8 Medi 2009 |
| | Cadanrhad ysgrifeidig gan LICC o dderbyn grant Cronfa Mynediad i Gyfalaf Rhanbarthol wedi'i ailborffilio | Ambr | Yn disgwyl cadarnhad o amserlen LICC | 2ail wythnos Medi 2009 |
| | Darparu data awdurdod partner i ymgynghorwyr technegol er mwyn galluogi datblygu model llif gwastraff | Gwyrdd | Ymgynghorwyr technegol i gysylltu â swyddgoion technegol awdurdodau partner yn dilyn y cyfarfod cychwyn prosiect | 8 Medi 2009 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfarfod cychwynnol rhwng ymgynghorwyr cyfreithiol a swyddogion cyfreithiol awdurdodau partner par datblygiad y Cytundeb Gweithio ar y Cyd / IAA | Ambr | I fod wedi ei drefnu ar gyfer wythnos 1af Medi,, ond rwan wedi ei amserlennu ar gyfer 3ydd wythnos Medi 2009. | Wythnos 1af Medi 2009 |
| | Bydd y gofyn, a'r ymagwedd tuag at yr angen posib am gynhwysedd trin gwastraff gweddilliol dros dro yn cael ei adnabod fel rhan o broses ddatblygu'r Achos Busnes Amlinellol | Gwyrdd | Bydd gwaith yn cychwyn ym Medi a Hydref fel rhan o'r modelu llif gwastraff i'w gyflanwi gan yr ymgynghorwyr technegol | Hydref 2009 |
| | Yr ymgynghorwyr technegol i gael cyfarwyddyd mewn perthynas â'r safleoedd a'r ffrwd gwaith cynllunio | Gwyrdd | Cyfarwyddwr Prosiect i roi cyfarwyddiadau | 20 Awst |
| | Datblygu model llif gwastraff i osod sylfaen i ddatblygu ateb cyfeiriol | Gwyrdd | | Medi |
| | Gweithdy Risg | Gwyrdd | | Medi |
| | Datblygu'r ateb cyfeiriol | Gwyrdd | | Hyd |
| | Datblygu modelau fforddiadwyedd a tariff cysgodol | Gwyrdd | | Hyd |
| | Datblygu achos strategol o fewn yr Achos Busnes Amlinellol | Gwyrdd | | Hyd |
| | Datblygu achos economaidd, masnachol ac ariannol o fewn yr Achos Busnes Amlinellol | Gwyrdd | | Hyd |
| | Rhannu drafft gweithredol yr Achos Busnes Amlinellol gydag Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | Gwyrdd | | 30 Hyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwiriad iechyd cynllunio (i gyd-fynd ag Achos Busnes Amlinellol) wedi'i gwblhau | Gwyrdd | | Hyd |
| | Achos Busnes Amlinellol Terfynol | Gwyrdd | | 20 Tach |
| | Cytundeb Gweithio ar y Cyd Terfynol | Gwyrdd | | 20 Tach |

**RISGIAU ALLWEDDOL** – Gweler eitem 4 yr agenda yma.

**Diweddariad ar y Gyllideb – Ailbroffil Grant Cronfa Mynediad i Gyfalaf Rhanbarthol LICC (Gorffennaf 2009)**

**Dyraniad / Proffil Gwreiddiol**

Grant Cronfa Mynediad i Gyfalaf Rhanbarthol LICC

| Cyfnod | Gweithgaredd (cyf at y Gyfundrefn SA Atodiad A) | Ariannu Cap £m |
|---|---|---|
| 1 Ebrill 2008 tan 31 Mawrth 2009 | Cam 1 Paratoi Prosiect | 0.075 |
| 1 Ebrill 2008 tan 31 Mawrth 2009 | Cam 2 Cynhrchu Achos Busnes | 0.195 |
| 1 Ebrill 2009 tan 31 Mawrth 2010 | Cam 3 Gweithgareddau Caffael | 0.2 |
| 1 Ebrill 2010 tan 31 Mawrth 2011 | Cam 3 Gweithgareddau Caffael | 0.2 |

**Proffil Diwygiedig**

| Cyfnod | Gweithgaredd (cyf at y Gyfundrefn SA Atodiad A) | Ariannu Cap £m |
|---|---|---|
| 1 Ebrill 2008 tan 31 Mawrth 2009 | Cam 1 Paratoi Prosiect | 0.075 |
| 1 Ebrill 2009 tan 31 Mawrth 2010 | Cam 2 Cynhyrchu Achos Busnes | 0.195 |
| 1 Ebrill 2010 tan 31 Mawrth 2011 | Cam 3 Gweithgareddau Caffael | 0.2 |
| 1 Ebrill 2011 to 31 Mawrth 2012 | Cam 3 Gweithgareddau Caffael | 0.2 |

**NWRWTP – RHAGAMCAN PROFFIL GWARIANT 2009/10 I 20011/12**

| **Blwyddyn gwariant** | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** | **2011/12** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Rheoli Prosiect | £79,000 | £228,200 | £253,462 | £256,152 | £816,814 |
| Costau ymgynghorwyr (craidd) | | £154,805 | £484,656 | £147,882 | £787,343 |
| Amser ychwanegol a chost gwaith | | £515,000 | £412,500 | £492,500 | £1,420,000 |
| Dewis safle posib/ taliad prydles) | | £100,000 | £200,000 | £200,000 | £500,000 |
| **Cyfanswm costau** | £79,000 | £998,005 | £1,350,618 | £1,096,534 | £3,524,157 |
| Arian Wrth Gefn y Prosiect (10%) | | £99,801 | £135,062 | £109,653 | £3,352,416 |
| **Cyfraniad Cronfa Mynediad i Gyfalaf Rhanbarthol LICC** | £75,000 | £195,000 | £200,000 | £200,000 | £670,000 |
| net | £4,000 | £902,806 | £1,285,680 | £1,006,187 | **£3,198,673** |
| **Fesul awdurdod** | **£800** | **£180,561** | **£257,136** | **£201,237** | |

Nodiadau
Mae'r dyraniad fesul awdurdod yn 1/5 rhan o'r cyfanswm ac yn destun cadarnhad
Mae dewis safle / taliadau prydles yn ymwneud â'r gofyniad posib i ddarparu ariannu i sicrhau mynediad i'r safle(oedd) ar gyfer trin gwastraff gweddilliol neu wasanaethau trosglwyddo gwastraff
Mae costau (craidd) ymgynghorwyr yn ymwneud ag elfennau pris sefydlog / pris targed o waith ymgynghorydd

Mae amser ychwanegol a chostau gwaith yn ymwneud â gweithgareddau nad ydynt yn rhai craidd (amser a chost) - yn cynnwys cefnogaeth safle a chynllunio gan ymgynghorwyr technegol a chefnogaeth cyfathrebu
Costau Rheoli Prosiect yn cynnwys Cyfarwyddwr Prosiect, Rheolwr Prosiect, gweinyddu, lleoliad, cyfieithu a chyllid - ailgodi tâl am gostau'n ymwneud â'r prosiect.

**EITEM AGENDA RHIF 8**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLED CYMRU** |
| **DYDDIAD :** | **17 MEDI 2009** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CYFARWYDDWR PROSIECT** |
| **PWNC:** | **CEFNOGAETH I GYMERADWYAETH AWDURDODAU PARTNER O ACHOS BUSNES AMLINELLOL A CHYTUNDEB GWEITHIO AR Y CYD** |

## 1.00 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.01 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a cheisio adborth gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ar y gefnogaeth bosib sydd ar gael i Awdurdodau Partner mewn perthynas â'r broses gymeradwyo ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol neu'r Cytundeb Gweithio ar y Cyd.

## 2.00 CEFNDIR

2.01 Cyflwynir Achos Busnes Amlinellol a Chytundeb Gweithio ar y Cyd i'w gymeradwyo i'r Bwrdd Prosiect a'r Cyd-Bwyllgor yma yn Rhagfyr eleni. Bydd briffiau ar gael i aelodau'r bwrdd prosiect a'r Cyd-Bwyllgor cyn y cyfarfodydd o'r prior to the bwrdd prosiect a'r Cyd-Bwyllgor. Bydd y Rheolwr Prosiect Steffan Owen yn cysylltu ag aelodau'r Bwrdd Prosiect a'r Cyd-Bwyllgor yn yr wythnosau nesaf er mwyn clustnodi lle yn y dyddiaduron ar gyfer y briffiau.

2.02 Bydd y Bwrdd Prosiect a Cyd-Bwyllgor yn medru argymhell i gymeradwyo Achos Busnes Amlinellol a Chytundeb Gweithio ar y Cyd i'r awdurdodau partner. Yna bydd yr awdurdodau partner yn cynnal eu prosesau cymeradwyo eu hunain. Unwaith y mae pob Awdurdod Partner wedi rhoi cymeradwyaeth gellir cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol i LlCC ar gyfer ei hystyriaeth a'i chymeradwyaeth.

2.03 Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd y broses cymeradwyo ar gyfer awdurdodau partner unigol yn cychwyn cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol / Chytundeb Gweithio ar y Cyd a raglennwyd ar gyfer cylch Bwrdd Prosiect a Phwyllgor ar y Cyd Rhagfyr 2009. Disgwylir y bydd pob cymeradwyaeth yn dod i law'r awdurdodau partner erbyn dechrau Mawrth 2010. Mae’r proses cymeradwyo ar gyfer awdurdodau partner wedi’i amlinellu yn yr atodiad i'r ddogfen yma.

## 3.00 YSTYRIAETHAU

3.01 Bydd y Tîm Rheoli Prosiect (y Cyfarwyddwr Prosiect a'r Rheolwr Prosiect) ynghyd â'r ymgynghorwyr ariannol, cyfreithiol a thechnegol allanol ar gael yn ôl y galw i gynorthwyo pob awdurdod partner yn ei broses gymeradwyaeth.

Meysydd posib lle gellir darparu cefnogaeth i Awdurdodau Partner:

- Briffio ar agweddau ariannol a thechnegol yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer llunwyr penderfyniadau, a rhanddeiliaid mewnol. Gellid briffio byrddau prosiect mewnol, swyddogion gweithredol, pwyllgorau craffu a throsolwg neu swyddogion neu gyrff sy'n aelodau.

- Briffio ar agweddau cyfreithiol (a lle mae hynny'n addas, ariannol) y Cytundeb Gweithio ar y Cyd ar gyfer llunwyr penderfyniadau, a rhanddeiliaid mewnol. Gellid briffio byrddau prosiect mewnol, swyddogion gweithredol, pwyllgorau craffu a throsolwg neu swyddogion neu gyrff sy'n aelodau.

**ARGYMHELLION**

4.01 Dylid nodi'r cymorth sydd ar gael y gellir ei gynnig i bob awdurdod partner yn ei brosesau cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol/ Chytundeb Gweithio ar y Cyd.

4.02 Dylai pob Awdurdod Partner ystyried pa gymorth y bydd ei angen yn y broses gymeradwyo a hysbysu'r Cyfarwyddwr Prosiect erbyn 17 Hydref 2009 er mwyn caniatáu rhaglennu cefnogaeth ac os oes angen, rhoi cyfarwyddiadau i'r ymgynghorwyr.

**5.00 GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.01 Mae'r gyllideb a ddyrannwyd i'r prosiect yn ddigonol i ddarparu cefnogaeth i'r awdurdodau partner.

**6.00 EFFAITH GWRTH DLODI**

6.01 Dim

**7.00 EFFAITH AMGYLCHEDDOL**

7.01 Dim

**8.00 EFFAITH CYDRADDOLDEB**

8.01 Dim

**9.00 GOBLYGIADAU PERSONÉL**

9.01 Dim

**10.00 YMGYNGHORI ANGENRHEIDIOL**

10.01 Dim

**11.00 YMGYNGHORI A GYNHALIWYD**

11.01 Dim

**12.00 ATODIADAU**

12.01 Dim

**DOGFENNAU CEFNDIR**
**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985**

Swyddog Cyswllt : Stephen Penny
Ffôn : (01352) 704914
E-Bost : Stephen.penny@flintshire.gov.uk